



Annwyl Gydweithiwr

16/12/2021

Mae maint a graddfa'r rhaglen dos atgyfnerthu yn golygu bod yn rhaid i ni nawr ddarparu dros 156,000 o frechlynnau mewn ychydig wythnosau. Mae hyn wrth gwrs yn her i sicrhau bod gennym adnoddau a chapasiti i gyflawni'r gofyniad hwn.

Rydym am roi sicrwydd i staff na fyddwn yn dweud wrth bobl am ganslo gwyliau a drefnwyd ymlaen llaw dros gyfnod y Nadolig, fodd bynnag gofynnwn i staff fod yn hyblyg os bydd angen cyflenwi mewn meysydd allweddol fel y gallwn barhau i gynnal gwasanaethau a sicrhau bod ein cleifion yn cael y profiad gorau posibl os oes angen ein gofal arnynt.

Mae lles staff yn hynod bwysig a gwyddom fod staff yn teimlo'r pwysau ac yn amlwg yn edrych ymlaen at seibiant. Nid ydym am dorri ar draws y cynlluniau hynny, a pheidio â rhoi cyfle iddynt orffwys a bwrw eu blinder, oni bai ei bod yn gwbl angenrheidiol cynnal lefelau staffio diogel i'n cleifion.

Mae'n bwysig nodi bod y pwysau ar draws y system ac nid dim ond yn canolbwyntio ar ein hysbytai. Mae ein cydweithwyr gofal sylfaenol hefyd yn wynebu galw mawr am eu gwasanaethau gyda phractisau meddygon teulu yn eithriadol o brysur, awdurdodau lleol yn wynebu heriau recriwtio i'r sector gofal, ac

mae ein cydweithwyr iechyd meddwl hefyd yn wynebu mwy o alw oherwydd effeithiau'r pandemig ar iechyd meddwl a lles. Mae pawb yn gweithio'n ddiflino i ateb y gofynion hyn.

Rydym yn gofyn i deuluoedd fynd â'u hanwyliaid adref o'r ysbyty lle y gallant fel y gallwn ryddhau ein gwelyau ysbyty i'r rhai sydd angen ein harbenigedd. Mae ein partneriaid awdurdod lleol yn ein cefnogi gyda'r gofyniad hwn ac yn nodi cymorth lle bo hynny'n bosibl.

Rydym yn gofyn am amynedd a dealltwriaeth gan y gymuned wrth i ni fynd i'r afael â'r cyfnod heriol hwn. Gwyddom fod pobl yn mynd yn fwyfwy rhwystredig sy'n arwain yn anffodus at gam-drin staff, nad ydym yn ei oddef, yn enwedig ar adeg pan mae staff yn gwneud eu gorau i ofalu am ein poblogaeth leol ac wedi gorfod addasu i ffyrdd newydd o weithio.

Rydym hefyd yn apelio ar ein staff, gwirfoddolwyr, partneriaid a'r boblogaeth i gymryd cyfrifoldeb personol, dilyn y canllawiau presennol a pharhau i wynebu'r her ddiweddaraf hon gyda'n gilydd.

Rydym am i bawb gael cyfnod Nadolig hapus ac iach, ond mae angen i bob un ohonom chwarae ein rhan i gyfyngu ar ledaeniad y feirws hwn a'r effaith ar ein gwasanaethau a'n gilydd.

Diolch.

Ydych chi'n barod i chwarae eich rhan yn y frwydr yn erbyn COVID-19?

Mae hwn yn gyfnod tyngedfennol yn y rhaglen frechu ac mae angen eich cefnogaeth arnom i helpu i amddiffyn ein cymunedau. Byddwch yn chwarae rhan bwysig wrth helpu ein poblogaeth i gael eu brechu ac atgyfnerthu eu himiwnedd y gaeaf hwn. Ar hyn o bryd mae gennym amrywiaeth o rolau rydym yn recriwtio ar eu cyfer ar draws ein safleoedd brechu, gan gynnwys:

- Imiwneiddiwr COVID-19 Heb ei Gofrestru Band 3
- Imiwneiddiwr/Goruchwyliwr Ymarferydd Cofrestredig Band 5
- Fferylliaeth
- Gweinyddu

I gael gwybod mwy am y rolau a sut y gallwch ymuno â'r frwydr yn erbyn COVID-19 cliciwch [yma](#).

Ydych chi'n gyn-Nyrs, Meddyg neu Weithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd cofrestredig? Rydym hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu i gefnogi ein rhaglen frechu ledled Caerdydd a'r Fro. Bydd eich cefnogaeth yn hanfodol i'n helpu i frechu ein cymuned a darparu amddiffyniad hanfodol yn erbyn COVID-19. I gael gwybod mwy a gwneud cais i fod yn wirfoddolwr, cofrestrwch eich manylion drwy glicio [yma](#).

Ymunwch â'n gweithlu nyrsio

Os ydych yn chwilio am gyfle nyrsio newydd a chyffrous, cofrestrwch ar gyfer ein Digwyddiad Recriwtio'r Gaeaf ar gyfer Nyrsys ac ODPau a gynhelir ddydd Iau 20 Ionawr 2022. Bydd y lleoliad a'r amser yn cael eu cadarnhau cyn bo hir. Mae'r digwyddiadau hyn yn eich galluogi i

gwrdd â rhai o'r tîm, dysgu mwy am y Bwrdd Iechyd, a'r rolau sydd ar gael gennym.

[Cofrestrwch nawr i fanteisio ar y cyfle.](#)



Treial i wella gofal sepsis yn cyrraedd carreg filltir

Ym mis Gorffennaf 2021, lansiodd ein Huned Achosion Brys yn YAC y Treial PRONTO. Gyda'r nod o wella gofal sepsis, canlyniadau cleifion a gwneud y defnydd gorau o wrthfotigau ymhlith cleifion ag achos tybiedig o sepsis, mae'r Treial PRONTO wedi llwyddo i recriwtio dros 100 o gleifion ers hynny.

Mae sepsis yn haint bacterol cymhleth a chyffredin a allai fygwth bywyd, ac mae ei ganfod yn gynnar a sicrhau ymateb clinigol prydlon yn bwysig er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Fodd bynnag, os nad oes haint bacterol sylfaenol gan glaf sy'n dod i'r Uned Achosion Brys gydag achos tybiedig o sepsis, ni fydd defnyddio gwrthfotigau mewnwythiennol (IV) o unrhyw fudd.

Mae'r Treial PRONTO, sy'n cael ei reoli ar hyn o bryd gan Ganolfan Treialon Ymchwil (CTR) Prifysgol Caerdydd, a'i noddi gan Brifysgol Lerpwl, yn ymchwilio i weld a yw profion pwynt gofal (PoCT) procalcitonin, prawf gwaed sy'n helpu i ganfod haint bacterol, wrth ymyl y

gwely, yn gwella canlyniadau i gleifion ac yn lleihau'r defnydd diangen o wrthfotigau.

Mae tîm ymroddedig treial PRONTO wedi'i leoli yn yr Uned Achosion Brys yn Ysbyty Athrofaol Cymru, gan alluogi'r uned i barhau i ddarparu gofal heb ei drefnu, ac ar yr un pryd, yn rhoi'r cyfle i gleifion fod yn rhan o dreial aml-ganolfan yn y DU gyda chyn lleied o amharu â phosibl.

Dywedodd Dr Jonathan Underwood, Prif Ymchwilydd a Meddyg Ymgynghorol Clefyddau Heintus yn Ysbyty Athrofaol Cymru: "Mae ein dwy nyrs ymchwil ymroddedig, Lauren Thomas a Non Smith, wedi'u hymgorffori yn ein Huned Achosion Brys, ac felly gallant adnabod cleifion yn gyflym a allai fod yn gymwys ar gyfer y treial hwn. Maent wedi bod yn wych a dyma'r prif reswm pam mae'r treial hwn wedi bod mor llwyddiannus, a'n bod wedi gweld cymaint o gleifion yn cael eu recriwtio.



Er gwaethaf yr heriau y mae'r Uned Achosion Brys yn eu hwynebu, rydym yn dal i ddarparu ymchwil arloesol a fydd yn gwella ansawdd a dyfodol gofal cleifion â sepsis."

"Mae'r pandemig wedi pwysleisio pwysigrwydd treialon clinigol ar gyfer gwella canlyniadau cleifion. Mae parhau i wneud ymchwil er

gwaethaf yr heriau a wynebwr yn bwysig nid yn unig er budd y cleifion yn y treialon, ond hefyd i annog gwell canlyniadau a gwell gofal yn fwy cyffredinol. Rydym wedi gweld gwelliant mewn mesurau sepsis yn gyffredinol ers i'r treial ddechrau, sy'n bennaf oherwydd gwaith caled Lauren a Non."

I gael gwybod mwy am y Treial PRONTO [ewch i'r ddolen hon.](#)

Dathlu Llwyddiant Gofal Iechyd CEM Caerdydd



Canmolwyd tîm Gofal Iechyd CEM Caerdydd yng Ngwobrau CEM Caerdydd eleni, gyda'r Uwch Nyrs, Karen Mills, yn ennill gwobr fawreddog yr Uchel Siryf.

Gan gydnabod gwaith eithriadol staff y carchar, nod Gwobrau CEM Caerdydd yw codi ymwybyddiaeth o'r gwaith a gynhaliwyd gan aelodau'r tîm a dathlu llwyddiannau. Yn y seremoni wobrwyo eleni, roedd y tîm Gofal Iechyd cyfan, y Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd a'r tîm Gweinyddu i gyd ar y rhestr fer ar gyfer Tîm y Flwyddyn.


Wrth sôn am ei buddugoliaeth, dywedodd Karen: “Mae gan nyrsio mewn carchardai lawer o heriau, ond i mi, mae’n un o’r swyddi sy’n rhoi’r boddhad mwyaf. Mae’r cyfundrefnau a’r diogelwch sy’n sail i’n gwaith yn gofyn i ni weithio a chyfathrebu’n agos, gyda pharch at bob disgyblaeth, a thros y blynyddoedd, mae hyn wedi bod yn rhan allweddol o’n rôl. Mae cael gwobr yr Uchel Siryf yn anrhydedd ac rwy’n falch ohonof fy hun a’r tîm cyfan yng Ngharchar Caerdydd am y gwaith caled a’r penderfyniad rydym wedi’i ddangos ac mae’r gwobrau hyn yn dyst i hynny.”

Daw Gwobrau CEM Caerdydd fis ar ôl i Kirsty John gael ei chydnabod yn Nyrs y Flwyddyn RCN am ei gwaith gyda chydweithwyr yn CEM Caerdydd, yn arwain y system brofi ar gyfer yr holl ddynion sy’n cyrraedd y ddalfa a chreu canolfan frechu o fewn y carchar.

Elusen Iechyd Caerdydd a’r Fro

Te Prynhawn traddodiadol yng Ngwesty’r Coal Exchange

Ydych chi angen anrheg Nadolig funud olaf? Ymunwch â ni am brynhawn o gacennau blasus, brechdanau, sgons, cerddoriaeth a raffl elusenol i helpu i godi arian ar gyfer Apêl Prop, gan gefnogi’r gwasanaeth Adsefydlu wedi Anaf i’r Ymennydd. Archebwch eich tocyn £25 y pen yma: <https://healthcharity.wales/events/traditional-afternoon-tea-at-the-coal-exchange-hotel/>



Cylchlythyr Nadolig yr Elusen Iechyd

Edrychwch ar beth mae Tîm yr Elusen Iechyd wedi bod yn ei wneud yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig, a pharatowch ar gyfer heriau’r flwyddyn newydd: <https://healthcharity.wales/app/uploads/2021/12/HC-Christmas-Newsletter.pdf>

Y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles

Gobeithio y gwnewch chi fwynhau darllen am brosiectau ac arddangosfeydd diweddar a rhai sydd ar y gweill gan dîm y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles y Nadolig hwn. <https://cardiffandvale.art/wp-content/uploads/2021/12/Arts-for-Health-and-WellbeingChristmas-Newsletter-2021.pdf>

